**HEN FURDDUNNOD A THYDDYNNOD PANDY TUDUR**

(addasiad o ddarlith a draddodwyd i'r Gymdeithas yn y Pandy, Hydref 2014)

**CEFNDIR**

Hanfod hanes ydi'r tir sydd dan ein traed. Dyma sydd yn dylanwadu arnom ni, dyna ddylanwadodd ar ein cyndeidiau, a dyna fydd yn dylanwadu ar ein hetifeddion.

O edrych ar y tir yn ardal y Pandy, gwelwn rywfaint o olion o'r Oes Iâ ddiwethaf. Ar ochr ddeheuol Dyffryn Gall mae ponciau yn rhedeg sy'n goleddfu o'r de-ddwyrain i'r gogledd-orllewin, er enghraifft ar y caeau rhwng Glanrhyd a Hafod Fawr, ac mae'n bur debyg mai gwrymiau wedi'u creu wrth i'r rhewlifoedd ollwng eu llwyth wrth feiriol ydynt – math o fariannau. Mae dyfnder pridd i'w gael yr ochr hon i'r dyffryn o ganlyniad, ond o astudio'r tir ar ochr ogleddol Dyffryn Gall, mae'r graig yn llawer nes i'r wyneb – effaith crafu'r rhewlif efallai. Mae'r nodwedd hon yn cael ei hamlygu'n aml yn ystod misoedd yr haf pan fo'r haul ar ei anterth, oherwydd mae'r ochrau serth yma o'r dyffryn sy'n wynebu'r de yn llosgi ar gyfnodau sych. Nid oes dyfnder pridd i'r glaswelltyn gael y gwlybaniaeth angenrheidiol, ac felly mae'n crino. Mae'n ddiddorol sylwi fel bo'r darnau sy'n llosgi yn amrywio o le i le gan ddibynnu ar yr amser o'r flwyddyn. Os yw'n gyfnod sych ddechrau'r haf tir Fron Deg/Llwyn Llydan/Nant Erw sy'n llosgi gan fwyaf, ond fel yr â yn fis Awst, mae'r tir sy'n llosgi yn nes i Langernyw, yn arbennig tir Ty'n Ffordd.

Cwyd yr ardal i uchder o 1,000 troedfedd tua'r gogledd ar bonciau Penddaeardor, ond ar ochr ddeheuol yr ardal cwyd y tir i 1,390 troedfedd ar Foel Moelogan a 1,313 troedfedd ar Ffrith Uchaf (Bwlch y Gwynt). Mae crib Cefnbrynsion i'r dwyrain, yn gwahanu ardal y Pandy ac ardal Gwytherin. Tir rhywiog sy'n bennaf yn yr ardal, ac oherwydd hynny nid oes fawr ddim tir diffaith i'w gael. Gan fod yr ardal wedi ei lleoli i'r dwyrain o Eryri, mae'n derbyn glawiad eithaf uchel yn sgil y mynyddoedd. O symud i lawr y dyffryn tua'r dwyrain i ardal Llangernyw sy'n bellach o'r mynyddoedd, mae cryn leihad yn swm y glawiad. Gwyntoedd gorllewinol a geir yn bennaf, a'r rhain sy'n dod â'r glaw i'w sgil.

Craig siâl sy'n nodweddu'r ardal, craig a grewyd yn y cyfnod Silwraidd – carreg Wenlock a Slabiau Nantglyn yn bennaf. Craig frau ydyw, sy'n hollti'n weddol hawdd ac mae osgo'r graig yn amrywio o le i le. Mewn darnau mae'n hollol lorweddol, ond fe'i ceir ar osgo mewn llecynnau eraill sy'n profi symudiad yn y ddaear ar ryw gyfnod ymhell yn ôl. I'r de o'r pentref y ceir Slabiau Nantglyn yn bennaf ac yn gorwedd ar ymyl anticlein sy'n rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae pentref Pandy Tudur wedi ei leoli ar ymyl yr anticlein, ac mae'r fflagiau i'r gogledd yn goleddfu tua'r gogledd, a'r rhai i'r de o'r pentref yn goleddfu i'r de. Mae ceunant yr afon Derfyn yn un o'r enghreifftiau gorau yn sir Ddinbych o geunant syth mewn ardal lle mae'r gwelyau wedi eu haflonyddu, ac o leiaf 80 troedfedd o ddyfnder ger mynydd Moelogan.

Mae tri dyffryn yn rhannu'r ardal, y prif ddyffryn, dyffryn Gall gyda'r afon yn tarddu uwchlaw Farm Yard a rhedeg o'r de-orllewin i'r gogledd-ddwyrain tua Llangernyw, dyffryn y Derfyn sy'n tarddu ym Mynydd Moelogan gan deithio tua'r gogledd i lawr drwy bentref y Pandy gan ymuno â'r Gall rhwng Singrig a Ty'n Ffordd. Mae'r afon Gallen yn tarddu uwchlaw Tŷ Celyn, gan redeg o dan bont Tŷ Hir, heibio Plas yn Blaenau gan ymuno â'r brif afon ger Ty'n Ddôl. Mae'r afonydd i gyd yn rhan o'r plethwaith o nentydd ac afonydd sydd yn nhalgylch yr afon Clwyd. Er hynny, rhaid nodi mai gyda Llanrwst a Dyffryn Conwy y mae cysylltiad cymdeithasol yr ardal.

Mae'r afon Derfyn yn ffurfio ceunant dwfn uwchlaw ac islaw'r pentref, ac ar y tir gwastad rhwng y ddau geunant y ceir y felin. Pandy ydoedd yn wreiddiol, cyn datblygu'n felin flawd. Crewyd Llyn y Felin uwchlaw'r felin gan dynnu dŵr o'r afon Derfyn, ar gyfer troi'r olwyn ddŵr. Roedd hon yn felin gydiol, sef dwy olwyn ddŵr, y naill uwch y llaw, a'r un dŵr yn troi'r ddwy. Bu melin wlân, melin flawd ac odyn grasu yma yn y gorffennol.

Yn y ceunant dwfn ger y Felin roedd Chwarel y Felin ac o hon y cloddiwyd am garreg i adeiladu amryw o'r tai yn y pentref - un o'r rhai olaf oedd Hafannedd ddechrau'r 1920au.

Roedd melinau dŵr eraill i'w cael yn yr ardal – ym Mhlas yn Blaenau, Nant y Wrach Fawr a Cefn Coch Isaf – a defnyddid y rhain i bwrpas y fferm ei hunan, i greu pŵer i falu blawd i'r anifeiliaid a goruchwylion eraill y fferm.

Darganfuwyd olion hen saethau a bwyeill carreg yn yr ardal.Cafwyd hen saethau wrth gloddio ger Ty'n Llidiart. Yn 1885 yn Foel Fawr darganfuwyd cŷn carreg tua 14 x 2¾ modfedd. Yn Wenlli tua 1910 darganfuwyd bwyell garreg wedi'i chaboli drosti – 6¾ x 3 modfedd ar ei fan lletaf. Tybir bod y cŷn a'r fwyell wedi dod o chwarel Graig Lwyd, Penmaenmawr – roedd carreg fflint arbennig yno a gwnaed llawer o offer ohoni, sydd wedi eu darganfod ar hyd a lled Cymru

Yng nghae Buarthau Bach ar dir Hafod Fawr, cafwyd bwyell wedi'i chaboli mewn cyflwr perffaith o faint tua 7 x 4 modfedd, hefyd bwyell yng nghae Foel Lwynog Uchaf – hon yn fyrrach ac heb fod mewn cystal cyflwr. Dywedir iddynt gael eu cadw yn rhai o adeiladau'r fferm, ond iddynt fynd ar goll tua 1925.

Darganfuwyd melin law ar dir Rhos Lan, sef pentwr o gerrig a'r garreg uchaf tua 17 modfedd o dryfesur a dyfnder o 2 ¾ modfedd â thwll yn y canol o tua 5/8 modfedd mewn tryfesur. Trosglwyddwyd hon i Amgueddfa Coleg y Brifysgol Bangor yn 1915. Y cofnod swyddogol ohoni yno yw "carreg isaf breuan wastad Rufeinig/Brythonig Rufeinig. Tywodfaen cwartsaidd garw, Rhodd gan y Parchedig Thomas Roberts". Pwy oedd Thomas Roberts tybed?

Ym Mhlas yn Blaenau ceir cae o'r enw Dôl Bryn Beddau, sydd heb fod ymhell o'r Hen Ficerdy, ac ynddo mae bryncyn tua 6 throedfedd o uchder a thua 50 llath mewn amgylchedd. Does dim gwybodaeth os yw hwn

yn rhywbeth arwyddocaol fodd bynnag. Gelwir y gefnen uwchlaw Singrig gerllaw yn Bryn Beddau. Darganfuwyd llestri claddu ym Mhlas yn Blaenau a Thy'n Ffordd, ac nid oedd gweddillion yr esgyrn oedd ynddynt wedi llosgi'n llwyr. Mae hyn yn debygol o fod yn gofnod o safle gladdu, ond nid oes olion i gadarnhau'r dybiaeth hon, nac unrhyw gofnod ysgrifenedig – dim ond enw cae a bryncyn.

Mae safle o'r Oes Bres ar dir Nant y Wrach Bach ar ymylon cors Wenlli. Bu Ramon o Pant y Rhedyn yn archwilio'r tir a chredai iddo ddarganfod olion rhai adeiladau i'r gogledd-orllewin o'r safle.

Rhedai ffordd Rufeinig ar hyd Cefnbrynsion gan arwain ar draws Moelogan ar ei ffordd i Fetws-y-coed. Nid yn unig hynny, ond mae enwau diddorol ar Gefnbrynsion, sef Cefn Castell, Tan y Castell a Bryn Castell. Mae hyn yn awgrymu'n bendant bod rhyw gaer amddiffynol wedi bod yno ar un adeg, ac mae'r enw Ty'n Llidiart yn awgrymu efallai mai dyma'r fynedfa i'r gaer. Gall mai hon oedd Caer Ebnewid (yn ôl Cledwyn Fychan) sydd wedi ei lleoli heb fod ymhell o Llyniau Budron. I danlinellu'r posibilrwydd o safle hanesyddol ar y gefnen hon, mae cae o'r enw Sarn y Marchnogion ger y bedair groesffordd, a gall enw fferm Buarth Cerrig fod yn disgrifio lle wedi'i amgau i ddiogelu'r anifeiliaid dros nos.

Un nodwedd arall ar Gefnbrynsion yw'r Ffynnon Geffylau. Led cae neu ddau ar ôl troi i gyfeiriad Llangernyw o'r bedair groesffordd, fe welwch ddwy res o goed yn arwain i unlle ar gyrion ucha caeau Ty'n Twll. Rhyw hanner canllath i ganllath o'r ffordd fawr, mae ffynnon, a hon yw'r Ffynnon Geffylau. Fe all mai ffynnon ar gyfer dyfrhau pan yn symud anifeiliaid ydyw, ond roedd traddodiad ers talwm o olchi ceffylau. Mae T. Gwyn Jones yn *Welsh Folklore and Folk Customs* yn nodi ei bod yn arferiad i fynd â cheffylau i'w golchi yn nŵr Ffynnon Sant Siôr ger Abergele unwaith y flwyddyn yn y gred, mae'n bur debyg, y byddai hynny'n eu hatgyfnerthu a'u cadw'n iach.

Mae yna lawer o sôn am geffylau'n cael eu golchi yn Iwerddon ar adeg arbennig o'r flwyddyn mewn llynnoedd, ffynhonnau ac yn y môr, adeg gŵyl Lammas, sef Gŵyl Awst. Arferai tyrfaoedd wylio'r seremoni ac ymuno yn yr hwyl gynt. Dywedid ei bod yn bur debyg yn ffair baganaidd, ac efallai mai'r rheswm am ddiflaniad yr arferiad oedd dyfodiad Cristnogaeth a'u bod am ddileu hen arferion paganaidd.

Ar wahân i'r hyn ddywed T Gwyn Jones prin bod unrhyw dystiolaeth gadarn o'r golchi defodol yma yng Nghymru, ond mae arferiad tebyg yn dal i fodoli heddiw yn Ffair Appleby, Westmoreland lle golchir y ceffylau yn yr afon.

Roedd tyddyn bychan o'r enw Nant y Betws, ar dir y Fedw sy'n eiddo i Ty'n Ffynnon. Dyna hefyd enw'r nant sy'n rhedeg heibio Ty'n Ffynnon ac yn ymuno â'r afon Gall ger Nant Erw. Mae 'betws' yn hen enw ar eglwys/llan, ond yma eto, nid oes unrhyw beth i gadarnhau os oedd cell Gristnogol gynnar yno. Betws = *oratory* [capel bychan], *beadhouse* (*beadsman – pensioner bound to pray for benefactor, almsman org. 'prayer' for which originally used*.)

Mae'n ddiddorol edrych o'ch cwmpas wrth grwydro'r ar hyd y ffyrdd yr ardal. Mae'n bur debyg mai'r ffyrdd croes ar y cefnau sych rhwng y dyffrynnoedd yw'r hen lwybrau gwreiddiol, ac mai datblygiad mwy diweddar yw'r briffordd ar waelod y dyffryn. Sylwch ar y ffordd sy'n rhedeg o groesffordd Wenlli heibio Bod Unig, Bron Hwylfa ac i lawr ardal Rhos y Gwyddyl i Langernyw naill ai heibio Glog Ddu neu Rhan Hir. Tai unllawr sy'n nodwedd o hen fythynnod yw'r mwyafrif o'r aneddau ar y ffordd hon. Mae hen ffordd arall yn rhedeg heibio'r Hen Ficerdy, tai ucha'r pentref, ac i fyny heibio Arfryn, Bryn yr Orsedd, Rhos Lan i'r mynydd. Y drydedd ffordd yw'r un o Cefn Isa Llangernyw, i fyny heibio Buarth Cerrig, Cefn Castell, Tŷ Isa Cefn am Graig Bach gan dorri ar draws y ceunant am Moelogan i gyfeiriad Llanrwst. Roedd hen ffordd drol yn rhedeg ar hyd gwaelod y dyffryn mae'n bur debyg, ac uwchraddiwyd y ffordd ynghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir olion o hen lwybr y ffordd mewn rhai mannau, e.e. heibio'r Bont a Maes y Bryn.

Mae ffyrdd cysylltiol eraill a llwybrau yn britho'r ardal, llwybrau sydd erbyn hyn yn llwybrau cyhoeddus, ond eu pwrpas gwreiddiol oedd hwyluso'r daith rhwng un lle a'r llall. Ceid llwybr postmyn yn rhedeg o fferm i fferm e.e. o Nant y Wrach Bach – Foel Fawr – Fron Deg – Llwyn Llydan – Nant Erw – Pant Manus – Tŷ Gwyn – Llwyn Du Isaf. Un arall o'r Felin i fyny i gyffiniau Tŷ Celyn ac ymlaen heibio Bryniau Peiriau tuag at Nant y Bont a Graig Bach. Ac un arall yn fforchio tuag at Tŷ Isa Cefn ayb. Mae llwybr o Tai Newyddion (aneddau uwchlaw Drofa Gelyn) sy'n mynd heibio Ty'n Rhos, caeau uchaf Llwyn Du Uchaf, ac yn dod allan yn Ffordd Fain. Yn yr un modd llwybr o Tai Newyddion i lawr am Tan Lan. Mae llwybr arall yn dechrau rhwng Tegfan a Bryn Celyn sy'n dilyn i lawr y Fedw ac yn dod allan gyferbyn a giât ffordd Pant Manus. Mae'r rhan fwyaf o'r llwybrau wedi eu nodi ar y mapiau Ordnans

**TAI UNNOS**

Ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg cafodd darnau helaeth o diroedd Cymru eu hamgau, gan amddifadu llawer o deuluoedd o'r hawl i bori eu hanifeiliaid ar y tiroedd comin.

Credid mor bell yn ôl â'r ail ganrif ar bymtheg y byddai gan unrhyw un a fyddai'n adeiladu tŷ ar dir comin mewn un noson, hawl ar y daliad ac ychydig o dir o'i amgylch, fel rhydd-ddaliad. Ceir amrywiadau i'r traddodiad hwn – un o'r meini prawf i weld os oedd y tŷ wedi'i gwblhau oedd y byddai tân ar yr aelwyd erbyn bore trannoeth, a mwg yn dod o'r simnai. Gallent hawlio'r tir oedd o gwmpas y bwthyn drwy daflu bwyell o bedair congl y tŷ. Hwy fyddai'r perchennog os nad oedd neb arall yn hawlio'r tir yn y flwyddyn gyntaf meddir.

Er nad oedd i'r tŷ unnos unrhyw statws yn ôl cyfraith gwlad Lloegr bryd hynny, mae yna beth traddodiad bod trafodaethau cyfreithiol ynglŷn â'r pwynt lle byddai tir a feddiannwyd gan sgwatwyr heb deitlau yn cael ei ystyried fel eiddo cyfreithlon.

Efallai mai dyma'r rheswm am fodolaeth cynifer o fythynnod ar fin ffyrdd, ardaloedd anghysbell ac anial a ger y mynydd-dir. Ceir tystiolaeth weladwy o safloedd bythynnod o'r fath pan welir coed eirin, gwsberis, lelog, hen ŵr, cennin Pedr neu eirlysiau yn tyfu mewn mannau lle nad oes adeilad yn bodoli heddiw.

**POOR COTTAGES**

Yn dilyn deddf y tlodion yn 1601 galluogwyd wardeiniaid eglwysi i godi bythynnod ar dir comin ar gyfer tlodion y plwyf, gyda chaniatâd y perchennog. Yma yn Pandy Tudur, ceir sawl enghraifft o 'poor cottage' ar fapiau'r Degwm – rhai yn eiddo i'r Esgobaeth, ac eraill yn eiddo i'r tirfeddiannwr oedd yn berchennog ar y fferm lle lleolid y 'poor cottage'. Hyd yn oed wedyn roedd y bythynnod tlawd hyn ar gyrion eitha'r ffermydd, yn aml yn ffinio â'r mynydd-dir neu'r tir comin. Roedd rhai ohonynt wedi eu lleoli ar uchder o ymron 1,000 o droedfeddi uwchlaw'r môr ar dir ymylol garw.

Dyma fythynnod y tlodion a nodir ar fapiau'r Degwm yn Pandy Tudur:

Perchennog: Robert Williams Wynne

**Calvinistic Chapel**

Tenant: Isaac Williams ac eraill (sef ymddiriedolwyr y capel)

Perchennog: John Williams (stad Plas yn Blaenau)

**Singrig** Tenant: William Jones

**Singrig** Tenant: David Hughes

| | |
|---|---|
| **Plas yn Blaenau Cottage** | Tenant: David Davies |
| **Ty Hir Cottage** | Tenant: Daniel Lloyd |
| **Cefn Brynsion Cottage** | Tenant: Robert Roberts |
| **Pen y Bryn** | Tenant: David Jones |

Perchennog: Catherine Lewis (Pant Manus)

| | |
|---|---|
| **Pen y Banc** | Tenant: Ellen Jones |

Perchennog: Robert Hughes (Tan Lan)

| | |
|---|---|
| **Ty'n Rhos** | Tenant: Daniel Jones |

Perchennog: Robert Jones

| | |
|---|---|
| **Glan Rhyd** | Tenant: Robert Evans |
| **Bryn Celyn** | Tenant: William Davies |

Perchennog: Hugh Hughes (Fron Deg)

| | |
|---|---|
| **Ty Newydd (Fron Deg)** | Evan Hughes |

Perchennog a thenant

| | |
|---|---|
| **Fron Gelli** | David Evans |
| **Cerrig Llwydion** | John Jones |

Yn 1840 adeg cofnodi a chreu mapiau'r Degwm (noder mai 20 Hydref, 1838 yw dyddiad casglu'r wybodaeth ym mhlwyf Llangernyw) roedd tri darn sylweddol o dir comin sef ardal Wenlli i lawr am Ros y Gwyddyl, mynydd Swch yr Hafod a Chefn Bryn Sion. Roedd gweddill yr ardal yn cael ei hamaethu gyda'r rhan fwyaf o'r amaethwyr yn denantiaid i wahanol stadau a mân dirfeddiannwyr.

Yn ôl cofnodion y Degwm roedd gwerth rhent plwyf Llangernyw yn dod i £546.18.8 y flwyddyn. Roedd y cnydau a gynaeafwyd yn y plwyf fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwenith | 519.34322 bushel |
| Barlys | 921.15088 bushel |
| Ceirch | 1325.89898 bushel |

**MURDDUNOD A BYTHYNNOD**

Fe gychwynnwn y daith o gwmpas yr ardal yn olrhain rhai o'r hen fythynnod a thyddynnod yng nghyffinau'r Wenlli ac i lawr y gefnen i gyfeiriad Rhos y Gwyddyl.

**Bryn Rhydd**

Ceir cyfeiriad mewn dogfennau dyddiedig i 1818 at y lle hwn fel y Waen Lli a gŵr o'r enw Thomas Wood yn byw yno. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chyn hynny cafodd tirfeddiannwyr ychwanegu darnau helaeth at eu stadau drwy'r deddfau cau'r tiroedd comin 1843 a chaewyd comin Wenlli ac eithrio 8 acer yn rhydd i'r cyhoedd i dorri brwyn er mwyn toi a chael mawn i gynnau tân ar eu haelwydydd.

Yn 1891 roedd Hugh Davies 29 (mwyngloddiwr) a'i frawd John 31 (gwas ffarm) a'u mam weddw Catherine Davies 62, ynghyd â chyfnither Martha Jones 22, Evan Evans 35 yn lojio, William Jones (nai) 1 ac Ellen Davies (nith) 5 mis yn byw yn y bwthyn 2 ystafell.

Nid oes fawr o olion o'r bwthyn erbyn heddiw.

**Pant y Rhedyn**

Cofnodwyd Pant y Rhedyn ar fapiau'r Degwm ac roedd yn eiddo i Esgobaeth Llanelwy. Y tenant oedd Jane Jones ac roedd y fferm oddeutu 9 acer. Mae Pant y Rhedyn yn dal i fodoli heddiw, ond gyda gardd helaeth yn unig.

**Wenlli Ganol (Wenlli)**

Perchennog Wenlli Ganol ar fapiau'r Degwm oedd Esgobaeth Llanelwy. Y tenant oedd Hugh Williams ac roedd yn ffermio tua 5 acer o dir. Gwerthwyd tir Wenlli rai blynyddoedd yn ôl, a dim ond tŷ ac adeiladau amaethyddol sydd yn Wenlli erbyn heddiw.

**Pen 'r Ardor (Penddaeardor)**

Cofnodwyd fferm fechan Pen 'r Ardor ar fapiau'r Degwm. Y perchennog oedd Robert William Wynne, Garthewin a'r tenant oedd John Evans. Roedd teulu John Evans yn byw yma cyn hyn – yn 1759 gwnaeth William Robert ei ewyllys, ac yn ddiweddarach yn 1802 cawn ewyllys ei fab Evan Williams. Yma gwelwn yr arferiad o gymryd enw cyntaf y tad fel cyfenw'r mab, ac mae hyn yn parhau, gan mai mab Evan Williams oedd John Evans, y tenant uchod.

Roedd y fferm yn 28 acer yn 1838, yn rhannol o borfa a thir âr. Roedd rhan ucha'r fferm yn parhau'n rhan o gomin Wenlli yn bryd hynny, ond ychwanegwyd cae neu ddau o'r tir comin at y fferm yn ddiweddarach.

Yn arwerthiant rhai o ffermydd stad Garthewin yn 1911 gwerthwyd y fferm 46 acer i'r tenant, John Parry. Mae rhai o adeiladau'r fferm yn dal ar eu traed heddiw, ond nid oes ond rhai o waliau'r tŷ ar ôl.

**Tŷ Newydd** (ar dir Fron Deg)

Hugh Hughes oedd perchennog fferm Fron Deg a Tŷ Newydd yn 1939. Cyfeirir at Tŷ Newydd fel '*poor cottage*' ar fap y Degwm gyda gardd fechan. Y tenant oedd Evan Hughes.

Yma y bu teulu Robert Roberts, y Sgolor Mawr, yn byw ar ôl gorfod symud o Hafod Bach. Mae enw ei dad, Owen Roberts a'r teulu yn cael eu cofnodi yn Tŷ Newydd ar gyfrifiadau 1851-1881. Hwy, mi gredaf, oedd yr olaf i fyw yno.

Hyd tua'r flwyddyn 2000 yr unig awgrym bod bwthyn wedi bod ar y safle oedd bodolaeth coeden afalau crabaitsh, ond erbyn hyn mae'r goeden wedi pydru a diflannu.

**Bodunig**

Tir comin oedd safle Bodunig yng nghyfnod cofnodi mapiau'r Degwm uwchlaw fferm Nant Erw. Mae'r enw yn ddisgrifiad pur gywir o'r bwthyn, sef lle unig, anghysbell.

Ceir y cofnod cyntaf ohono yng nghyfrifiad 1851, cyfnod pan feddianwyd gweddill y tiroedd comin yn ardal Pandy Tudur. Yno roedd William Davies 40 oed yn byw. Gwas ffarm ydoedd a anwyd yn Meifod yn sir Drefaldwyn. Roedd ei wraig, Elizabeth 40 yn dod o blwyf Llangernyw, ac roedd iddynt chwech o blant, John 10, Elizabeth 8, Laura 7, William 6, Anne 2 a Thomas 1.

Mae'n bur debyg mai William Davies arall a'i deulu oedd yn byw yno yn 1851, gan iddo gael ei eni yn Bettws. Roedd ef yn 40 oed a'i wraig Catherine yn 42. Erbyn hyn roedd ganddo 3 acer o dir i'w hamaethu.

Yng nghyfrifiad 1911 gwas ffarm arall o'r enw William Jones a'i deulu oedd yn byw yno. Nodir ar y cyfrifiad mai dwy ystafell oedd i'r bwthyn. Roedd y plant yn mynychu'r ysgol ym Mhandy Tudur.

Ganol yr ugeinfed ganrif trowyd y bwthyn yn fyngalo modern.

**Carreg y Dwn**

Yn 1838 roedd Carreg y Dwn yn eiddo i Phoebe Lloyd, Susannah Lloyd, Robert Howard a Susannah Benedicta Howard – cangen o deulu Hafodunnos, Wigfair a Soughton sir y Fflint oedd y rhain. Ar farwolaeth John Lloyd ('Yr Athronydd') yn 1815, bu'n rhaid chwalu stad Hafodunnos a gwerthwyd cyfran o'r stad i Samuel Sandbach yn 1833 ac aeth cyfran o'r stad i'r perthnasau uchod.

Y tenant oedd William Jones ac roedd y fferm yn 26 acer ac yn rhannol yn borfa a thir âr. Yng nghyfrifiad 1841 roedd Williams Jones 50 oed yn byw gydag Elizabeth 21, David 11 a Thomas 7 oed.

Nid oes olion o'r tyddyn i'w gweld heddiw, ac fe adeiladwyd siediau amaethyddol ar y safle.

**Pant y Genedl**

Nodir ar fapiau'r Degwm mai Edward Davies oedd perchennog Pant y Genedl, ac ef hefyd oedd yn byw yno. Tyddyn bychan o rhyw 10 acer oedd Pant y Genedl yn cynnwys 5 cae i gyd, ac ohonynt roedd dau yn borfa, un yn dir âr a'r ddau arall yn ddolydd gwair. Hyn ar uchder o tua 800 troedfedd.

Lleolwyd Pant y Genedl ar ffin y tir comin uwchlaw Carreg y Dwn a Phant Manus. Mae'n bur debyg ei fod yn enghraifft o ymestyn allan i'r tir comin, ac wedi datblygu o fod yn dŷ unnos. Nid yw Pant y Genedl yn bodoli heddiw, ond wrth astudio patrwm y caeau a'i safle ar y map Degwm, gwelir tebygrwydd mawr rhyngddo â thyddyn Bron Haul heddiw. O edrych ar gyfrifiad 1841, Edward Davies 69 oed, Grace 59, Anne 32 a Mary 15 oedd yn byw yn Bron Haul, gan gadarnhau'r dybiaeth mai'r un yw y ddau le.

Erbyn 1851 Edward Davies y mab 36 oedd yn byw yn Bron Haul gyda'i chwaer Anne 42, a'i frawd gweddw William 45, a Morris (nai) 13, Elinor (nith) 8 a William (nai) 6. Mae'n nodi erbyn hyn bod Bron Haul yn 20 acer o ran maint.

**Coed Alyn**

Dyma fan nad oes unrhyw olion ohono erbyn heddiw. Roedd Coed Alyn wedi'i leoli ar fap y Degwm uwchlaw Pant y Genedl wedi'i amgylchynu gan dir comin. Y perchennog oedd Jane Roberts, a hi hefyd oedd yn byw

yno. Erbyn 1841 Jane Ellis (60 oed) oedd yn byw yno gyda Margaret Roberts 35, Elizabeth Jones 12, Dorothy 3 ac Elinor 9 mis. Ai Jane Roberts oedd y Jane Ellis hon tybed?

Roedd Coed Alyn ychydig dros 2 acer o ran maint, yn gymysgedd o borfa, tir âr a thir gwair. O ran ei faint a'i leoliad mae'n debygol iawn mai tŷ unnos ydoedd.

**Ty'n Rhos**

Lleolir Ty'n Rhos ar dir Llwyn Du Isaf ac yn 1841 roedd gwas ffarm o'r enw John Hughes 77 oed yn byw yno gydag Alice? Hughes 6 a Robert Hughes 26.

Credir mai yma y treuliodd Robert Roberts, y Sgolor Mawr, ei flynyddoedd olaf. Roedd ei rieni Owen a Mary Roberts, wedi bod yn byw yn Tŷ Newydd, Fron Deg o 1851 hyd 1881, a thybir i'w fam symud i Ty'n Rhos. Dywed John Hughes, Graig, Llangernyw i'r diweddar John Owen, Gerddi Gleision ddweud wrtho ei fod yn cofio ei nain yn dweud bod Mary Roberts, Ty'n Rhos (mam Robert Roberts) wedi galw a dweud wrthi: 'Mae gen i newydd da i ti heddiw Betsan, mae Robat yn dwad adra [o Awstralia].' O gofrestr claddedigaethau Eglwys St Digain, cofnodwyd:

Robert Roberts, Ty'n Rhos, claddwyd Ebrill 15, 1885, oedran 50.

Mae'r mannau a nodir uchod i gyd wedi'u lleoli ar fin neu yng nghanol y tir comin, sy'n lled-awgrymu mai tai unnos yw sawl un ohonynt. Rydym wedi cyrraedd ardal Rhos y Gwyddyl, sef y gefnen sy'n rhedeg l gyfeiriad Llangernyw . Ym Mhenffordd-deg y lleolwyd giât y mynydd (neu derfyn y tir comin) ar un cyfnod, ac yno y deuai'r ffordd o Langernyw i ben. Rhywle fan hyn roedd bwthyn o'r enw **Tŷ Tywyrch**, a bedyddiwyd dau blentyn oddi yno yng nghapel y Pandy (Bethania) yn 1822 ac 1826.

Mewn ambell gyfrifiad ceir cofnod o dŷ ar fuarth fferm Llwyn Du Isaf – **Llwyn Du Yard**. Yn 1891 roedd tri pherson yn byw ynddo, sef John Davies (crydd) 74 oed, ei frawd David (gwas ffarm) 77 a'i nai Robert (bugail) 32 – '*deaf and dumb'*. Dim ond John Davies oedd yno yn 1901.

Croeswn y dyffryn yn awr i gyffiniau Ty'n Ddôl.

**Tan y Rhiwiau**

Bwthyn bychan to gwellt dwy ystafell ydoedd wedi'i leoli rhwng Ty'n Ddôl a Ty'n Twll. Bu'n gartref i Moses Williams – tad Dr Cernyw Williams, Llangernyw. Yma y cychwynnodd achos y Bedyddwyr ym Mro Cernyw tua 1786.

Yn 1841 John Roberts (gwas ffarm) 24 a Mary Roberts 27 oedd yn byw yno. Nid oes cofnod ar ôl 1891. Mae rhywfaint o olion ohono i'w gweld hyd heddiw.

**Gegin**

Bwthyn ar fuarth Plas yn Blaenau oedd hwn. Ar fapiau'r Degwm fe gyfeirir at Plas yn Blaenau Cottage o dan berchnogaeth John Williams. Roedd Plas yn Blaenau yn stad fechan bryd hynny, ac roedd sawl '*poor cottage*' yn eiddo iddynt, a hwn yn eu mysg. David Davies oedd yn byw ynddo, ac roedd gardd fechan yn perthyn iddo. Yng nghyfrifiad 1851 cyfeirir at y bwthyn fel 'Gegin' gyda David Davies (gwas ffarm) 63 oed yn byw ynddo a Grace Davies ei wraig 69. Yn 1861 mae David Davies yn dal i fyw yno, ond fel lojiwr gyda theulu arall. Nid oes cofnod ar y cyfrifiadau ar ôl 1881.

Mae rhywfaint o adfeilion y bwthyn i'w gweld heddiw.

**Singrig**

Ar fapiau'r Degwm roedd Singrig yn cael ei nodi fel '*poor cottages'* ym mherchnogaeth John Williams, Plas yn Blaenau, ac yn gartref i ddau denant, William Jones a David Hughes. Nodir yng Nghyfrifiad 1841 bod William Jones (gwas ffarm) 45 oed a'i ferch Margaret 15 yn byw yn un ohonynt, a David Hughes (gwas ffarm) 48 oed a'i blant Mary 20, David 13 a Henry 6 yn byw yn y llall. Bu amrywiol deuluoedd yn byw yno hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a gweision oedd galwedigaeth y penteuluoedd – i stad Plas yn Blaenau o bosib. Ar gyfrifiad 1891 nodir bod un bwthyn yn bedair ystafell, a'r llall yn ddwy ystafell yn unig.

Adnewyddwyd y bwthyn yn 80au'r ugeinfed ganrif gan ei wneud yn dŷ deulawr.

**Pen y Bryn**

Lleolid Pen y Bryn yn y nant uwchlaw Singrig, ac o astudio mapiau'r Degwm mae'n bosib bod hwn yn ddau le gyda'r tyddyn ar ben y llechwedd a bwthyn ger yr afon yn y gwaelod. Mae lleoliad yr olion i'w gweld ger y bont droed sy'n croesi'r afon Derbyn wrth ddilyn y llwybr troed o'r Fynwent Newydd i'r Ficerdy.

Un bwthyn sy'n cael ei nodi ar fapiau'r Degwm, sef '*poor cottage'* ym mherchnogaeth John Williams, Plas yn Blaenau. Y tenant oedd David Jones, ac yn 1841 roedd David Jones (gwas ffarm) 45 oed yn byw yno gyda'i wraig Anne 35 a'u plentyn bach pum mis oed, Eleanor. Yn y bwthyn arall roedd Eleazar Jones (gwas ffarm) 25 oed yn byw yno gyda'i wraig Elizabeth 30, a'u plant Margaret 3 ac Evan 5 mis. Erbyn 1851 mae Pen y Bryn yn fferm gyda 4 acer o dir, ac mae David Jones a'r teulu yn dal i fyw yno. Yn ogystal nodir bod Edward Evans 6 ac Evan 5 ei frawd (plant i felinydd) yno ar ymweliad o Sir Fflint. Nid oes sôn am y bwthyn arall. Erbyn 1881 nodir fod Pen y Bryn yn wag. Nid oes ond ychydig waliau ar ôl erbyn heddiw.

**Tŷ Hir Bach / Glan'rafon / Tŷ Hir Cottage**

Roedd bwthyn Tŷ Hir Bach a'i ardd fechan yn perthyn i John Williams, Plas yn Blaenau, ac ar fapiau'r Degwm fe'i nodir fel '*poor cottage'* o'r enw Tŷ Hir Cottage gyda Daniel Lloyd yn byw yno. Roedd y bwthyn dwy ystafell wedi'i leoli yr ochr arall i'r afon o Tŷ Hir. Ar gyfrifiad 1841 cyfeirir at y bwthyn fel Glan'rafon Cottage gyda Daniel Lloyd (crydd) 60, Lowry Lloyd 70 a Catherine Lloyd (gwniadwraig) 28 yn byw yno. Yn 1851 Tŷ Hir Bach yw'r enw gyda Gomer Hughes (gwas ffarm) 28, ei wraig Eleanor 24 a John 1 yno. Yn 1861 ceir dau annedd/deulu yn Glan'rafon ac yn 1881 mae Catherine Croxon 67 yn dal i fyw yno gyda'i merch Laura (gwniadwraig) 26. Y cofnod olaf a geir ohono yw yn 1891 gyda John Williams (chwarelwr) a'i deulu yn byw ynddo. Nid oes ymron ddim olion o'r bwthyn erbyn heddiw.

**Cefn Brynsion Cottage**

Mae'r bwthyn hwn eto yn un o'r '*poor cottages'* oedd ym mherchnogaeth John Williams, Plas yn Blaenau. Lleolid hwn ger giât ffordd Cefn Ffynnon, a'r tenant oedd Robert Roberts. Roedd gardd fechan eto ynghlwm wrth y bwthyn hwn. Erbyn 1841 roedd Robert Davies a'i deulu yn byw yn Cefn Brynsion, gyda Robert Roberts a'i deulu yn byw yn yr '*other cottage'*. Eto, yma, mae'n debyg fod y bwthyn wedi ei rannu i gartrefu dau deulu. Gweision fferm oedd y ddau benteulu. Nid oes cofnod o'r bwthyn ar ôl hyn.

**Bwthyn yn Nhŷ Celyn**

Credir bod bwthyn ar draws yr afon i Tŷ Celyn, gan mai yno yn ôl traddodiad y ganwyd John Price, ysgolfeistr y Pandy yn ddiweddarach. Prin yw'r olion ohono, heb sôn am enw. Symudodd John Price oddi yno yn fachgen ifanc gyda'i fam a'i frawd, i fyw i fwthyn o'r enw Bron Haul (y sonnir amdano yn nes ymlaen).

Symudwn ymlaen yn awr i gwr arall y pentref gan ddilyn y ffordd i'r mynydd o ben yr allt uwchben y pentref.

**Bryn yr Orsedd**

Cawn gofnod cynnar o'r tyddyn yn 1777, pryd y gwnaeth Elizabeth Hughes (bu farw 1783) ei hewyllys. Ar fapiau'r Degwm, John Jones oedd y tenant, a'r tyddyn yn eiddo i Phoebe Lloyd, Susannah Lloyd, Robert Howard a Susannah Benedicta Howard (hen deulu Hafodunos, Wigfair, Soughton). Roedd tua 39 acer o ran maint. Yng nghyfrifiad 1841 roedd John Jones 25, Margaret ei wraig 23, eu plant William 3 a Jane 2, ynghyd â morwyn Sarah Wynne 14 yn byw yno. Teulu'r Jonesiaid fu yno hyd tua'r 1940au. Prynwyd y tyddyn gan Ty'n y Ffynnon, ac ni bu neb yn byw yn y tŷ ar ôl hynny, ac nid oes ond ychydig olion ohono.

**Bron Haul**

Ar yr ochr dde ychydig ar ôl pasio Bryn yr Orsedd, roedd bwthyn Bron Haul. Roedd ei safle rhyw led cae o'r ffordd ac wedi ei leoli ar gyrion y tir comin. Ar fapiau'r Degwm dyma lle deuai Ffordd Fain i ben - tir comin oedd ar ochr dde'r ffordd o'r fan hon ymlaen.

Nid oes unrhyw olion ar ôl o Bron Haul erbyn heddiw. Prin yn wir yw'r cyfeiriadau a geir at y bwthyn o gwbl.

Roedd Bron Haul yn eiddo i Esgobaeth Llanelwy yn ôl mapiau'r Degwm, ac efallai fe'i codwyd yn dilyn deddf 1601 pryd y galluogwyd wardeiniaid eglwysi i adeiladu bythynnod ar dir comin ar gyfer y tlodion, gyda chaniatâd y perchennog.

Ganwyd Hywel Tudur (y Parch. Hywel Roberts, Clynnog) yn Bron Haul tua'r flwyddyn 1840-41 – cofnodwyd ei dad, Humphrey Roberts, fel tenant yno ar fapiau'r Degwm yn 1838.

Erbyn cyfrifiad 1841, Catherine Price 53 oed (gweddw), a'i dau fab – John 14 (Ysgolfeistr yn y Pandy am tua 40 mlynedd) a Thomas 10 – oedd yn byw Bron Haul.

Nid oes unrhyw gofnod o'r bwthyn ar ôl hynny.

Mae'n rhyfedd meddwl i ddau o enwogion Pandy Tudur fyw yn y bwthyn di-nod hwn ar gwr y comin.

**Rhos Lan**

Nid oedd Rhos Lan yn bodoli adeg cofnodi mapiau'r Degwm yn yr ardal yn 1838. Fe'i cofnodwyd gyntaf ar gyfrifiad 1851. Tyddyn bychan ar fin y mynydd ydoedd gyda John ac Ann Jones a thri o blant, 6, 1 a 3 mis oed yn trigo yno, ac yn ffermio 10 acer o dir.

Darganfuwyd hen felin law yma ddechrau'r 20fed ganrif ac fe'i rhoddwyd i amgueddfa'r brifysgol ym Mangor yn rhodd gan y Parchedig Thomas Robert. Y disgrifiad a roddir gan yr amgueddfa yw: "Carreg isaf breuan wastad Rhufeinig/Brythonig Rufeinig. Tywodfaen cwartsaidd garw", sy'n brawf bod pobl wedi byw mewn cyfnod blaenorol ar y gefnen hon.

Yn 1891 a 1901 teulu Pierce Evans oedd yn byw yma, a hefyd wyres o'r enw Ellen Ann. Bu farw tad Ellen Ann (John Evans, Penddaeardor) rhyw ddeufis cyn ei geni, a'i mam (Ellen) yn fuan ar ôl ei geni. Roedd tri o blant i gyd ac fe fagwyd Ellen Ann gan rieni ei mam yma yn Rhos Lan. Magwyd y ddau arall oedd yn ddwyflwydd a blwydd ar y pryd gan eu taid a'u nain arall yn Tan Lan.

Y teulu olaf i fyw yma oedd Robert Davies a'i wraig a Bobi'r mab yn y 1930au a'r 1940au. Roedd Robert Davies yn dod o Ysbyty Ifan, ac ef fu'n cario'r coed efo'r drol o'r orsaf ym Metws-y-coed ar gyfer codi capel Ysbyty Ifan.

Bwthyn cegin a siambar ydoedd, ac efallai bod ystafell arall yn y cefn, oherwydd roeddynt yn cadw lodjar. Roedd y tŷ ar yr ochr chwith ar ôl mynd drwy'r giât – y beudy neu adeilad tebyg gyntaf, yna'r tŷ, a'r ddau'n sownd yn ei gilydd. Roedd y sied wair yn syth ymlaen

Yn ddiweddar codwyd tŷ newydd o haearn a choed ar y safle gan Gerallt Evans a'r teulu.

**(Ha)Foty**

Lleolir y Foty ar derfyn presennol Ffordd Fain. Dyma enghraifft o'r traddodiad hendre/hafod oedd yn cael ei weithredu yng nghefn gwlad Cymru yn y gorffennol. Roedd y teulu a'r anifeiliaid yn byw yn y brif fferm, yr

‘hendre’ yn ystod y gaeaf, ac yna roeddent yn mynd â’r anifeiliaid i dir uwch i bori yn ystod yr haf, yr ‘hafod’. Ymhen amser daeth yr ‘hafod’ yn fferm barhaol, a’r anifeiliaid yn cael eu hanfon i dir uwch yr ‘hafoty’ dros yr haf.

Yn 1838 roedd Hafoty yn perthyn i stad Robert William Wynne, Garthewin ac yn 15 acer o ran maint. Y tenant oedd Evan Owen, a bu’r teulu yn byw yma am dros ddeugain mlynedd. Erbyn 1881 y gwas Evan Hughes oedd y tenant. Tua dechrau’r 20fed ganrif daeth y teulu Williams yn denantiaid, a David a Kate Williams a’u plant oedd y teulu olaf i fyw yma. Yn 1975 symudodd Mrs Williams a thri o’i phlant, William Morris, Emlyn ac Annie Mary i un o’r tai cyngor newydd a adeiladwyd yn y Pandy. Pan fu farw yr olaf o’r meibion fe werthwyd Foty yn y 1990au. Moderneiddwyd y tŷ a’i ymestyn a phobl o’r tu allan i’r ardal sydd wedi byw yma ers hynny.

**Tai Newyddion / Bryn Hyfryd**

Lleolir safle’r tai hyn ar y chwith ychydig ar ôl teithio heibio Llwyn Du Uchaf tuag at Glanrhyd.

Y cofnod cynharaf o’r tai hyn yw yn 1823 pryd y cofnodwyd marwolaeth Cadwaladr Roberts, Tai Newyddion. Nid oes cyfeiriad atynt ar fapiau’r Degwm nac mewn unrhyw gyfrifiad. Mae cofnod o le o’r enw Bryn Hyfryd wedi’i leoli rhywle rhwng Glanrhyd, Tan Lan a Llwyn Du Uchaf, a gan nad oes olion tai yn unman arall yn y darn hwn ni ellir ond tybio mai’r un yw’r ddau le.

Yng nghofnodion plwy Llangernyw ceir:

1865 – Thomas, son of Mary Davies, single woman, Tai Newyddion, father unknown
1867 – William, son of Patrick Kelly & Mary Davies, Tai Newydd Pandy
- Mary, daughter of “ “ “ “ “

Yng Nghyfrifiad 1881 mae Mary Davies yn byw yn Bryn Hyfryd fel tlotyn 56 oed, di-briod!

Felly, o’r dystiolaeth uchod, mae’n bur debyg mai’r un lle yw Tai Newyddion a Bryn Hyfryd. Bythynnod gweithwyr a thlodion oeddynt a llawer o fynd a dod ymhlith y tenantiaid. Nid oedd neb i’w weld yn aros yma’n hir. Mewn ambell gyfrifiad nodir mai 2 dŷ oedd yma, yn 1861 nodir bod lle i bedwar teulu, ac yn 1871 – tri.

Gweithwyr oedd y mwyafrif fu’n byw yma, e.e. gwneuthurwr olwynion, plastrwr, crydd, chwarelwr, un yn gweu sanau (honno’n rhannol ddall), yn ogystal â gweision fferm.

Erbyn Cyfrifiad 1881 cofnodir mai ‘tlodion’ oedd yn y ddau dŷ. Nid oes cyfeiriad at y tai ar ôl y cyfrifiad hwn.

Nid yw’r safle’r tai wedi ei amgáu, ac felly mae’n debyg i’r adeiladau gael eu gadael i ddirywio ar ôl i’r olaf o’r trigolion fynd oddi yno, ac i neb hawlio perchnogaeth ar y safle.

**Ty’n Rhos**

Dyma fwthyn oedd ar ffin y tir comin rhyw led cae o Tai Newyddion. Cofnodwyd ef fel ‘poor cottage’ ar fapiau’r Degwm ym meddiant Robert Hughes, Tan Lan. Y tenant oedd Daniel Jones, ac ef a’i deulu oedd yno adeg cyfrifiad 1841. Gwas ffarm wrth ei alwedigaeth oedd Daniel Jones 40, ac roedd ganddo ef a’i wraig Jane 40, bedwar o blant sef Anne 14, Margaret 11, Eleanor 7 a Sidney 3 ynghyd â Thomas Williams 6 oed.

Erbyn 1861 Jane Jones 51, a'i merched Jane 14 a Margaret 8 oedd yn byw yno. Nodir bod y lle yn wag yn 1871 ac nid oes sôn amdano wedyn. Nid oes ond rhyw ychydig bonciau yn y tir i nodi'r safle erbyn hyn.

**Nant y Betws**

Roedd safle Nant y Betws i'w gael ger y nant sy'n rhedeg i lawr o gyfeiriad Ty'n Ffynnon tuag at Afon Dyffryn Gall gyferbyn â Nant Erw.

Nid oes cofnod ym mapiau'r Degwm nac yng nghyfrifiad 1841. Erbyn 1851 cofnodir bod Edward Evans (Ty'n Ffynnon) a'i deulu yn byw yno.

Roedd teulu Edward Evans yn byw yn Nhy'n y Ffynnon weithiau ac yn Nant y Betws dro arall. Ceir ewyllys i ewythr Edward Evans, sef Edward Evans (arall), Ty'n Ffynnon yn 1813, sydd yn ôl pob golwg yn ddi-blant, ac ar ôl gadael ychydig arian yn bennaf i'w neiaint, mae'n ewyllysio gweddill ei eiddo i'w frawd William Evans.Yn 1826 ceir ewyllys William Evans – o Nant y Betws – sydd yn gadael rhoddion i'w blant a gweddill ei eiddo i Edward Evans ei fab. Yn 1841 roedd Edward Evans yn byw yn Ty'n y Ffynnon, 1851 – Nant y Betws, erbyn 1861 roedd ei weddw, Martha yn byw yn Ty'n Ffynnon, 1871 – mae Martha yn ôl yn Nant y Betws, a dyma'r cofnod olaf o Nant y Betws yn y cyfrifiadau. Yn yr 1890au symudodd y teulu i fyw i Ty'n Twll, ac mae rhai o'r teulu yn dal i fyw yn yr ardal.

**Glan Rhyd**

Yn 1840 'poor cottage' oedd yn Glan Rhyd, ym meddiant Robert Jones, a'r tenant oedd Robert Evans.

Yn 1841 nodir bod tri tŷ yno, gyda Robert Williams (gwas fferm) 40 a'i teulu yn byw yn y cyntaf, Robert Evans (torrwr cerrig) 25 a'i deulu yn byw yn yr ail a Robert Jones (gwas fferm) 20 a'i deulu yn y trydydd.

Yn 1851 mae Robert Jones (y perchennog) 58 a'i deulu yn byw yn un o'r tai. Nodir ei fod yn ffermio 50 acer o dir ac yn cyflogi 2. Bythynnod a siambar oedd y tai yn wreiddiol, ond rhywdro fe godwyd y waliau a'r to i gynnwys llofftydd. Bu amrywiol deuluoedd yn byw ynddynt dros y blynyddoedd, ond erbyn hyn maent i gyd yn wag.

**Tan Dderwen** a **Glan 'r afon**

Yng nghyfrifiad 1851 y ceir yr unig gyfeiriad at y ddau enw uchod. Fel rheol, mae enwau'r tai yn y rhestrau cyfrifiad yn dilyn ei gilydd o ran ffyrdd neu lwybrau. Yn y cyfrifiad hwn, mae Tan Dderwen a Glan 'r afon wedi eu nodi rhwng Dolhyfryd a Glanrhyd. O edrych ar hen fapiau, mae rhyw olion i'w gweld ger y fynedfa i fferm Fron Deg, ac efallai mai yno yr oedd y ddau le uchod.

Ynddynt roedd dau was fferm a'u teuluoedd yn byw: Glan 'r afon – David Pierce 36, ei wraig Jane 31 a'u merch Adelaide 10; Tan Dderwen – John Jones 30, ei wraig Eleanor 23, eu plant Rchard 3 a Elizabeth 1, a thad John, sef William Jones 60.

**Dolhyfryd**

Yn 1851 y cawn y cofnod cyntaf o Dolhyfryd – a dim ond un tŷ a nodir, gyda Hugh Hughes 60, ei wraig Jane 66, eu mab sengl Robert 26 a'u hwyres Eleanor Bartley 8 yn byw yno. Roedd Hugh Hughes yn amaethu 25 acer o dir.

Erbyn 1861 roedd pedwar o dai yno wedi eu lleoli yn un rhes heb fod ymhell o'r bont sy'n croesi afon Dyffryn Gall. Ynddynt roedd gwas fferm, cyfrwywr, gwneuthurwr watsys a thlotyn yn byw. Yn 1871 roedd dau o'r tai yn wag. Bu amrywiaeth o alwedigaethau gan y tenantiaid dros gyfnod o amser – amaethwr, cigydd, deliwr nwyddau, gwniadwragedd, carier, teiliwr, siopwr, gweision, draeniwr, ynghyd â thlodion. Bu siop yno am gyfnod hyd 30au-40au'r ugeinfed ganrif.

Erbyn heddiw mae pump o dai yn y rhes.

**Gro Bach**

Roedd y tyddyn hwn wedi'i leoli ym mhen draw dôl Hafod Bach, ger y ffordd sy'n arwain i'r Foel. Mae cae a elwir hyd heddiw yn 'Dolydd Gro' i'w weld yr ochr arall i'r ffordd fawr islaw caeau Hafod Fawr.

Un o'r cofnodion cynharaf o Gro neu Gro Bach yw marwolaeth Lowry Jones yn 72 oed yn 1819.

Yn mapiau'r Degwm, roedd Gro Bach yn eiddo i Phoebe Lloyd ac yn y blaen a'r tenant oedd Robert Williams. Roedd yn amaethu 4 acer o dir. Yn 1841 roedd yn 52 oed, ei wraig Jane 51 a'u merched Catharine 19 a Rachel 10. Yn 1851 roedd Jane (Jones) yn weddw ac yn cael ei galw'n dlotyn, a'i merch Rachel yn byw gyda hi fel gwniadwraig. Mae'n bur debyg mai ei mab William (Jones) a'i deulu sy'n byw yno yn 1861 a 1871, gan fod Jane (Jones) (mam) 83 yn byw gyda hwy yno yn 1871. Nid oes cofnod o'r bwthyn ar ôl hyn a phrin iawn y gellir gweld unrhyw olion ohono – dim ond ychydig wrymiau yn y tir. Mae'r tir lle'r oedd adeiladau'r tyddyn yn ddarn o ddôl Hafod Bach erbyn hyn, a'r caeau 'Dolydd Gro' yn perthyn i fferm Cefn Coch Isa.

**Tan Ffordd**

Roedd y tyddyn bychan hwn yn eiddo i esgobaeth Llanelwy yng nghyfnod mapiau'r Degwm, wedi'i leoli ar y ffordd fawr sy'n arwain i gyfeiriad Llanrwst. Dyma enghraifft o dyddyn bychan a sefydlwyd wrth ymestyn allan i diroedd nad oedd wedi eu tiriogaethu, gan ddilyn un o ffyrdd yr ardal. Dwy acer o dir oedd iddo, a'r rheiny yn dir serth yn rhedeg rhwng y ffordd fawr a'r afon. Y tenant oedd John Richard. Nodir yng nghyfrifiad 1841 mai gwehydd oedd John Richard 40 oed yn byw gydag Elizabeth 50 a Jane 9 a buont yn byw yno am flynyddoedd. Gwas fferm o'r enw Robert Davies a'i deulu oedd yno'n byw yn 1891.

Ehangwyd y bwthyn yn yr ugeinfed ganrif, ac yn ddiweddar fe'i hadnewyddwyd unwaith eto, ac fe'i prynwyd gan bobl o'r tu allan i'r ardal.

.

**Cerrig Llwydion**

Ar fapiau'r Degwm cofnodir Cerrig Llwydion fel 'poor cottage' ym meddiant John Jones. Ef hefyd oedd yn byw ynddo.

Roedd y bwthyn wedi'i leoli yng nghanol Tir Comin a elwid yn Swch yr Hafod. Torrwr cerrig wrth ei alwedigaeth oedd John Jones 75, yn byw gydag Anne 50, Margaret 28 ac Evan Jones 11 mis. Yn nghyfrifiad 1851 mae'n bur debyg fod y teulu yn byw ym Mhenybont gerllaw.

Erbyn 1851 fod y bwthyn a elwid yn Cerrig Llwydion bellach yn cael ei alw yn Swch 'r Hafod, gan fod lleoliad Cerrig Llwydion bron yn union lle mae fferm Swch yr Hafod heddiw.

**Penybont**

Roedd Penybont wedi ei nodi ar fapiau'r Degwm, ond o dan yr enw Swch. Roedd y tyddyn yn eiddo i esgobaeth Llanelwy a'r tenant oedd Evan Evans. Roedd rhyw dair acer o dir yn perthyn iddo. Yn 1841 roedd Evan Evans 30 (torrwr cerrig) a'i wraig Mary 30, a'u plant Eleanor 7 a John 2, ynghyd ag Anne Thomas 40 yn byw yno. Newidiodd y tenantiaid dros y blynyddoedd, ond gweithwyr fferm a'u teuluoedd oeddynt gan fwyaf.

Mae Penybont yn dal mewn bodolaeth gyda chae neu ddau wedi ei ychwanegu ato erbyn hyn.

**Bod Wilym**

Ar fapiau'r Degwm, Sarah Hughes oedd y perchennog, a'r tenant oedd Robert Lloyd. Roedd iddo rhyw 2 acer o dir yn borfa a dolydd. Yn ôl cyfrifiad 1841 gwas fferm oedd Robert Lloyd 35, yn byw gyda'i wraig Anne 30, a'u plant Mary 9, Leah 7, Daniel 5 a Catharine 1. Mae'n amlwg fod y bwthyn wedi ei rannu'n ddau, gan fod Anne Roberts 65 yn byw yn y darn arall. Yn ôl cyfrifiad 1851 bydwraig oedd galwedigaeth Anne Roberts, a Robert Lloyd yn ffermio 4 acer o dir erbyn hynny. Dim ond un annedd oedd yno yn 1861.

Bwthyn unllawr yw Bod Wilym hyd heddiw gydag acer neu ddwy o dir.

O ddod yn ôl i bentref Pandy Tudur fe geisiwn daro golwg arno yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yng nghyfrifiad 1841 roedd oddeutu ugain annedd ynddo, erbyn 1861 ymron ddeg ar hugain. Roedd rhain yn amrywio o lety un ystafell i fythynnod bychain. Nid oedd enwau ond ar ychydig iawn o'r tai ar y cyfrifiadau, felly mae'n ddigon anodd bod yn hollol sicr o leoliad rhai ohonynt.

Ar ben yr allt ar yr ochr chwith mae Llannerch Felys, ac o ddilyn y ffordd gul i gyfeiriad y Ficerdy, deuir at hen weithdai ar y dde. Y lle nesaf y down ato yw Bryn Celyn lle ar un adeg y bu gwneuthurwr canhwyllau yn byw. Yna rhes o dri thŷ Pen y Banc, lle trigai cobler, sadler a gwerthwr potiau. Yma yn un o'r tai y bu capel cyntaf y Pandy. Islaw roedd Fron Gelli lle bu Dafydd Evans y pregethwr yn byw. Roedd hefyd yn rhwymo llyfrau wrth ei alwedigaeth. Ychydig yn is o dan Fron Gelli ac uwchlaw'r capel presennol roedd rhes o bedwar bwthyn dwy ystafell a elwid yn Tai'r Ochr. Gyferbyn â hwy ar draws yr allt roedd tafarn y Swan.

Yng ngwaelod yr allt roedd yr Efail – mae'r waliau i'w gweld fel cilfach yng ngwaelod cae y Fron. Lleolwyd tŷ'r Efail gyferbyn ar ochr y nant. Yno hefyd ond ychydig yn uwch i fyny roedd tri thŷ'n wynebu'r ffordd ar ben tri thŷ arall oedd yn wynebu'r afon. Un ystafell oedd i bob tŷ, ac yma byddai gweddwon, hen lanciau a hen ferched yn byw.

Dyma sut y mae Hywel Tudur yn eu disgrifio.

Mae ynddi rai hen lanciau,
A'u dillad yn rhwyg dyllau;
A naw hen ferch yn diodde cam –
Wrth ddisgwyl am fodrwyau.

Ar ôl croesi'r bont, gwelid Ty Newydd, Siop y Felin, a rhes o fythynnod ar y dde. Roedd Ty Newydd yn dyddyn bychan, gydag ychydig o gaeau o gwmpas y pentref. Roedd dau dŷ to gwellt ar y chwith. Yna ar y dde wedyn, roedd y capel (Hen Gapel heddiw). Trowyd hwn yn dai pan godwyd trydydd capel yn y Pandy tua'r 1860au. Y tu ôl i adeilad yr Hen Gapel roedd ystafelloedd byw, a byddai tlodion a gweddwon yn byw ynddynt. Yr enw ar lafar arnynt yn yr ardal oedd 'Sunshine Cottages'!

Mae'r pentref a'r ardal wedi newid llawer erbyn heddiw – rhai o'r bythynnod a'r tyddynnod wedi diflannu, ond eraill wedi goroesi ac wedi'u moderneiddio dros sawl cyfnod, nes bod y ffurf wreiddiol wedi hen ddiflannu. Mae maint y daliadau yn ogystal wedi newid a chaeau wedi newid dwylo dros y blynyddoedd. Er hynny, mae'n syndod faint o wybodaeth sydd ar gael heddiw – dim ond i ni chwilio amdano ac edrych o'n cwmpas.